# MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH ARYR ADRANNAU

#### *Adran 32 - gorchmynion o dan adran 31: y weithdrefn*

63. Mae adran 32 yn disgrifio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dilyn wrth wneud gorchymyn o dan adran 31. Oni bai bod gorchymyn o'r fath yn diwygio gorchymyn sydd eisoes yn bod a dim byd arall, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau y bydd eu cynigion yn effeithio arnynt. Mae'n rhaid hefyd iddynt osod dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio'u cynigion am o leiaf 60 diwrnod (heb gynnwys cyfnodau pan fo'r Cynulliad ar doriad) cyn i'r Cynullid ystyried y gorchymyn drafft. Mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at y rheidrwydd i'r gorchymyn fynd fel rheol drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn unol â gofynion adran 50.